YSGOL
IEUAN GWYNEDD
Rhydymain, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2AS

"Gorau chwarae, cyd-chwarae"

01341 450636

catrinfflurroberts@gwynedd.gov.uk
Pennaeth mewn gofal: Mrs Catrin Ff Roberts

BRECWAST AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD

Cefndir

Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad i roi cyfle i bob plentyn o oedran ysgol gynradd sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd.

Bwriad y cynllun yw gwella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio er mwyn helpu i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad, ac annogir rhieni / gwarcheidwaid i gymryd rhan. Nid yw'n fwriad i frecwast yn yr ysgol gymryd lle brecwast y mae rhieni/gwarcheidwaid eisoes wedi'i ddarparu gartref. Ond mae'n caniatáu i'r holl blant hynny nad ydynt, am ba reswm bynnag, wedi cael brecwast gartref, gael brecwast yn yr ysgol.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Os hoffech i'ch plentyn/plant fynychu'r sesiynau brecwast rhaid i chi lenwi'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd i'r ysgol os gwelwch yn dda. Nodwch nad hawl yw brecwast am ddim. Gall ysgolion wrthod mynediad i unrhyw blentyn os ystyrir bod ei ymddygiad yn annerbyniol.

Yn gywir

C Ff Roberts

(Pennaeth mewn Gofal)

BRECWAST AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD

Llenwch a'i dychwelyd i'r ysgol

<table>
<tr><td colspan="3">Enw'r plentyn:</td><td colspan="3">Dosbarth:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn bresennol</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nodwch pa ddyddiau y bydd eich plentyn yn mynychu'r sesiwn frecwast</td></tr>
<tr><td>LLun</td><td>Mawrth</td><td>Mercher</td><td>Iau</td><td colspan="2">Gwener</td></tr>
<tr><td colspan="6">Gofynion Deietegol Arbennig</td></tr>
<tr><td colspan="4">A oes gan eich plentyn unrhyw alergedd/anoddefiad bwyd?</td><td>Oes</td><td>Nac oes</td></tr>
<tr><td colspan="6">Os Oes, nodwch y manylion</td></tr>
<tr><td colspan="6">Gwybodaeth arall</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rhowch fanylion am unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sy'n berthnasol i bresenoldeb eich plentyn yn y sesiwn frecwast</td></tr>
<tr><td colspan="6">Manylion cyswllt mewn achos o argyfwng</td></tr>
<tr><td colspan="4">Enw:</td><td colspan="2">Rhif Ffôn:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Perthynas â'r plentyn:</td></tr>
<tr><td colspan="4">Enw:</td><td colspan="2">Rhif ffôn</td></tr>
<tr><td colspan="6">Perthynas â'r plentyn:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rwy'n cadarnhau y byddwn am i fy mhlentyn fynychu'r sesiynau brecwast pan fyddant yn dechrau.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad</td><td colspan="2">Dyddiad:</td></tr>
</table>